

## **Rhif 392 - Beirniadaeth Rhyddiaith i Ddysgwyr Bl.4 ac Iau**

### **Beirniad – Nan Jones**

Daeth pedwar ar bymtheg ymgais i law a hoffwn ddiolch i'r disgyblion am gystadlu ac i'r athrawon am eu hannog a'u helpu ar gyfer y gystadleuaeth.

'Mwynhau' oedd y testun, a mwynheuais ddarllen yr amrywiaeth eang o brofiadau personol y disgyblion yn y darnau, yn seiliedig ar hobiau, gwyliau ac ymweliadau i'r Sw, i Gaerdydd, i gêm bel droed a hyd yn oed i dŷ Bampi.

Wrth ddarllen y darnau, roedd rhai yn defnyddio cystrawennau, ansoddeiriau a chymariaethau da iawn, tra roedd eraill wedi cyfyngu ar eu dewis o batrymau iaith ac wedi ysgrifennu darnau syml a chywir, ond yn debyg o ran ffurf a chynnwys.

Ar ôl llawer o grafu pen, dewisiais naw fel fy ffefrynnau, a teimlaf ei bod yn bwysig cydnabod y chwe canlynol –

TINA, DONKY, BOB, PRO, MO SALAH a ROBLOX am eu hymdrechion i ysgrifennu darnau sy'n adlewyrchu eu mwynhad.

HORSEY sy'n cael y drydedd wobwr am roi adroddiad gryno o'i fwynhad ar wyliau ym Mharis.

Yn ail mae SONNY BOY, sy'n ysgrifennu am ei ddiwrnod bendigedig gyda'i deulu a'i ffrindiau.

EXMOOR sy'n cyrraedd y brig, gyda darn naturiol a syml, sy'n dangos mwynhad profiad y disgybl, ond yn bennaf y mwynhad a gafodd wrth ysgrifennu'r darn.

1af – EXMOOR (392/6), 2il - SONNY BOY (392/17), 3ydd – HORSEY (392/8)

Diolch yn fawr i bawb am gystadlu, a daliwch ati i ysgrifennu, mae pob un ohonoch wedi llwyddo!